


Brechdan Grasu

Roedd hi'n hwyr glas i Begw godi o'r gwely cynnes, ond 'doedd fawr o awydd arni hi. Tynnodd ei phen gliniau i fyny, gan lapio ei thraed yn ei choban drwchus, gynnes.



“Begw, ty'd yn dy flaen wir, mae hi 'di troi wyth o'r gloch ac mi fyddi di'n hwyr i'r ysgol eto heddiw os na godi di'n reit handi.”

Mam Begw oedd yn gweiddi o waelod y grisiau. Cerddai yn ôl a blaen i'r gegin i roi tro ar yr uwd yn y sosban ar y tân, rhag ofn iddo gydio.

O'r diwedd, fe gododd Begw, gan hopian yn droednoeth o un droed i'r llall ar lawr oer y llofft. Aeth at y ffenest. 'Doedd dim posib gweld unrhyw beth y tu allan, gan i'r patrymau cris-groes rhewllyd guddio pob chwarel wydr.

“Fel hyn ma' hi ym mis Ionawr. Ond 'sdim ots, mi g'nesa i ar ôl gwisgo amdana',” meddylodd, wrth straffaglu i wisgo cyn gynted â phosib.

Pan gyrhaeddodd y gegin, gwelodd danllwyth o dân coch, gwynias yn llosgi'n dawel yn y grât.

“Brysia i fwyta dy uwd,” meddai ei mam, gan daro lwmp o fenyn a llwyaid o siwgr yn ei lygad. “Mi gei di 'neud brechdan grasu i ti dy hun hefo'r fforc hir, gan fod y tân mor goch.”



Llowciodd Begw yr uwd ac eisteddodd ar stôl drithroed yn crasu'r frechdan uwchben y tân eirias.

"Be' sydd i swpar chwarael heno mam?" gofynnodd yn freuddwydiol.

"Lobsgows hefo'r cig oen," atebodd ei mam, "mi fydd 'na ddigon o ll'gada ynddo fo."

"Be 'di ll'gada mewn lobsgóws?" gofynnodd Begw

"Wel y cig a'r brasder sy'n creu swigod bach, a rheiny sydd fel ll'gada yn sgleinio," atebodd ei mam.

"Mae Winni yn deud fod ei mam hi'n gallu g'neud lobsgóws dall, ac ma' isho bod yn glyfar iawn iawn i wneud hwnnw, medda' Winni."

"Ydi 'mwn," meddai ei mam, "lobsgows heb gig ydi hwnnw, heb ll'gada, ti'n gweld."

"Dydi'r lobsgows ddim yn gallu gweld chwaith!" meddai Begw'n gellweirus. "Wps! Fy mrechedan grasu ima' hi 'di disgyn i'r tân!"

Neidiodd Begw ar ei thread, gan syllu'n hurt i'r tân, a'r fforc yn wag yn ei llaw. Duodd y tân coch, a chododd mwg tywyll wrth i'r menyn yn y frechdan ffrio a llosgi yn y gwres.

"Dyna ti wedi g'neud llanast go iawn rwan. Ty'd, 'does dim amsar i 'neud un arall. Rhaid i ti fynd i'r ysgol heb dy frechedan grasu."

Roedd mam yn flin. Sychodd wyneb Begw yn frysiog, a thynnodd grib yn wyllt trwy ei gwallt cyn ei glymu'n dynn ar ei chorun.

“Thâl hi ddim i hel meddylia’ a breuddwydio uwchben y tân ben bora, w’ssti,” meddai reit swta.

Bu Begw yn blysiog ac yn meddwl am y frechdan grasu nôl a blaen drwy'r dydd, ond 'doedd dim iws. Roedd hi wedi hen losgi.

Ymhen hir a hwyr, daeth yn amser troi am adref o'r ysgol. Wrth gerdded linc-di-lonc ar hyd y ffordd gul, meddyliodd am y lobsgows a'r ll'gada' ynddo fo fyddai i swper chwarel. Cododd y glicied i agor drws y cefn, a daeth arogl arall i'w ffroenau.

“M- m-m-m,” meddai, “mae mam yn crasu cacan gri i de!”



Llonnodd drwyddi. Gwelai ei mam yn crasu'r cacennau bach crynion fesul hanner dwsin ar radell haearn ar y pentan.

Aeth y siom o golli'r frechdan grasu yn llwyr o gof Begw. Eisteddodd, cyn tynnu ei chôt hyd yn oed, i flasu'r gacen gri frau, gynnes.

“Un dda 'di mam,” meddyliodd Begw, “Mae hi'n glyfar iawn, yn gallu g'neud cacan gri a lobsgows 'run pryd.”